Cadeirydd Pwyllgor Cymru (Ymddiriedolwr)

Mae pob bywyd a gollir i hunanladdiad yn drasiedi, a gweledigaeth y Samariaid yw bod llai o bobl yn marw trwy hunanladdiad. Dyna pam yr ydym yn gweithio'n ddiflino i gyrraedd mwy o bobl a gwneud atal hunanladdiad yn flaenoriaeth. Wrth inni wynebu cyfnod eithriadol o heriol, gyda llawer yn wynebu caledi, ni fu erioed mor bwysig i'r Samariaid fod yma. Rydym yn chwilio am Gadeirydd ac Ymddiriedolwr i Bwyllgor Cymru a fydd yn dod â sgiliau a phrofiad eithriadol i'n sefydliad, wedi'u cyfuno â gwerthoedd a rennir.

Ym mis Ebrill 2022 lansiasom strategaeth newydd i'r DU a Gweriniaeth Iwerddon ynghyd â chynllun cyflawni strategol i Gymru. Gyda threftadaeth gref o bron 70 o flynyddoedd o ddarparu ein Gwasanaeth Gwrando, rydym bellach yn cymryd camau breision i ymestyn ein cyrhaeddiad yn y cymunedau sydd ein hangen ni fwyaf. Rydym yn adeiladu ein gwaith dylanwadu a'n gwasanaethau er mwyn gwella ataliaeth a chymorth i'r rhai sy'n wynebu risg hunanladdiad a hunan-niwed.

Yng Nghymru, rydym yn mynd o nerth i nerth ac eisiau adeiladu ar ddatblygiadau i'n tîm yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf, wedi inni sicrhau gweithgarwch dylanwadu llwyddiannus iawn a pherthnasoedd allanol ardderchog gyda phartneriaid allweddol a chyrff llywodraethol yng Nghymru. Mae cyfleoedd gwych i'r Samariaid yng Nghymru, ac rydym yn chwilio am Gadeirydd Pwyllgor Cymru sy'n gallu arwain proses llywodraethu genedlaethol effeithiol ac adeiladu ar lwyddiant gwaith cynyddol ein swyddfa yng Nghymru.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn dod â phrofiad a gwybodaeth ar gyfer arwain y Samariaid, ymrwymiad cryf i'n cenhadaeth a'n gwerthoedd, a'r gallu i gynnig cymorth effeithiol ac i herio'r Bwrdd Ymddiriedolwyr. Fel Ymddiriedolwr, byddwch yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o lunio'r modd o wireddu ein gweledigaeth ac yn hyrwyddo a datblygu'r Samariaid, gan sicrhau ein bod ni'n parhau yn hygyrch, yn berthnasol, ar gael, yn gynaliadwy ac wedi'n hysgogi'n gyson i gyflawni ein cenhadaeth yng Nghymru ac ar draws y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon.

Bydd y swydd wedi'i lleoli yng Nghymru, a bydd gennych ddealltwriaeth gadarn o'r dirwedd ddinesig a gwleidyddol yr ydym yn gweithio ynddi. Byddwch yn angerddol ynghylch tegwch

wedi'i wreiddio, amrywiaeth a chynhwysiant ym mhopeth a wnawn. Bydd gennych gefndir lefel uwch/gweithredwr mewn sefydliad cymhleth gyda phrofiad o gydweithredu i gyflawni newid a chynyddu effaith. Bydd gennych brofiad blaenorol o lywodraethu gydag amser i'w fuddsoddi yn y rôl hon.

Ymrwymiad amser: Fan lleiaf, mae angen bod yn bresennol mewn pedwar cyfarfod o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr bob blwyddyn, dau ddiwrnod Bwrdd i ffwrdd, dau gyfarfod Cyngor Rhanbarthol a chyfarfod blynyddol Cyngor y Samariaid. Bydd hefyd angen mynychu pwyllgorau'r Bwrdd, gan gynnwys o leiaf pedwar cyfarfod o Bwyllgor Cymru. Anogir Ymddiriedolwyr i fynychu digwyddiadau eraill hefyd lle bo'n bosibl. Bydd angen gweithgarwch ychwanegol rhwng cyfarfodydd pwyllgor hefyd i ddatblygu aelodaeth y pwyllgor ac agenda Cymru. Gan gynnwys amser cyfarfodydd, gall yr ymrwymiad amrywio rhwng 2-3 diwrnod y mis.

Mae hon yn rôl heb dâl/wirfoddol. Gallwch lawrlwytho llyfryn ymgeisydd llawn [YMA]. Dylech nodi, gan mai rôl ymddiriedolwr yr elusen ganolog (y DU a Gweriniaeth Iwerddon) yw hon, caiff y broses ymgeisio ei chynnal yn Saesneg. Caiff busnes Bwrdd y Samariaid a Phwyllgor Cymru ei gynnal yn Saesneg.

I wneud cais, dylech anfon eich CV a llythyr eglurhaol at Ailsa Sutherland drwy anfon neges e-bost at applications@fwbparkbrown.com I gael sgwrs gyfrinachol gychwynnol, cysylltwch ag Ailsa Sutherland drwy ffonio 0131 539 7087

Dydd Gwener 27 Ionawr yw'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau. Caiff y cyfweliadau eu cynnal yn ystod mis Chwefror 2023.

Rhowch wybod inni os oes angen inni wybod unrhyw beth er mwyn cynnig proses recriwtio deg i chi. Byddwn yn gwneud addasiadau rhesymol i'r broses gyfweld ac rydym wedi ymrwymo i wneud addasiadau rhesymol a gyfathrebwyd inni gan ymgeiswyr llwyddiannus er mwyn eich cefnogi chi yn eich rôl.